# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

| |
|---|
| **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020** |

**Adran:**

| |
|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

**Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:**

| |
|---|
| **Vaughan Gething AS, Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

**Dyddiad dechrau:**

| |
|---|
| **28/08/20** |

**Cyfeiriad e-bost cyswllt:**

| |
|---|
| **adrian.parsons@llyw.cymru** |

# Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae tybaco'n lladd 8 miliwn a mwy o bobl y flwyddyn yn fyd-eang, ac mae'n un o'r bygythiadau mwyaf erioed i iechyd y cyhoedd. Mae ysmygu ac ysmygu goddefol yn gysylltiedig ag amrywiaeth o afiechydon difrifol gan gynnwys canserau a chlefyd y galon. Mae ysmygu tybaco yn achosi tua 5,450 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru, ac mae'n costio tua £302 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru.[1]

Mae lleihau effeithiau ysmygu ar iechyd yn flaenoriaeth polisi gydnabyddedig i Lywodraeth Cymru. Ysmygu yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru o hyd gyda chyfraddau ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy na dwbl rhai'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Ysmygu yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd o hyd, ar ôl cael ei nodi fel un o brif achosion y bwlch mewn cyfraddau marwolaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru yn gostwng yn raddol. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ysmygu yn y pumed mwyaf difreintiedig yn parhau i fod yn fwy na dwbl y gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig. Er enghraifft, yn 2014-15, nododd 29.2% o oedolion yn y pumed mwyaf difreintiedig eu bod wedi ysmygu, o gymharu â 12.0% yn y pumed lleiaf difreintiedig. Mae blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd (DALYs) yn mesur effaith amrywiaeth o ffactorau risg ar iechyd unigolyn. Mae un DALY yn cyfateb i golli un flwyddyn o fywyd iach unigolyn. Ysmygu yw'r ffactor risg mwyaf ar gyfer DALYs yng Nghymru, gan gyfrannu at golli 121,000 o flynyddoedd o fywyd iach yn 2017.[2]

Dechreuodd dau o bob tri o ysmygwyr cyn eu bod yn 18 oed, a dechreuodd bron i 40% ysmygu'n rheolaidd cyn eu bod yn 16 oed[3]. Bydd annog ysmygwyr ifanc naill ai i roi'r gorau iddi neu eu hannog i beidio â dechrau ysmygu yn y lle cyntaf nid yn unig yn eu helpu i fyw bywydau iachach ond mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n byw gyda rhieni neu frodyr a chwiorydd sy'n ysmygu deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr eu hunain. Felly gallai person ifanc sy'n cael ei atal rhag ysmygu neu sy'n cael ei annog i roi'r gorau i ysmygu gael effaith ar ei blant, gan gynyddu'r gobaith y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ddi-fwg.

Bydd Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn gwneud newidiadau i'r gwaharddiad presennol ar ysmygu a sefydlwyd yn 2007 ac yn cyflwyno elfennau newydd sydd eu hangen i weithredu'r darpariaethau ar dir ysbytai di-fwg, tir ysgolion, a meysydd chwarae cyhoeddus yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ("Deddf 2017")[4]. Mae Rheoliadau 2020 yn ategu'r mesurau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco 2017-2020[5] i wella iechyd a lles yng Nghymru, ac i roi mwy o bwyslais ar atal yn unol â'n strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*[6].

Effaith fwriadedig Rheoliadau 2020 yw lleihau cysylltiad â mwg ail-law a dadnormaleiddio ysmygu ymhellach, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc.

---

[1] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2012) – 'Tybaco ac iechyd yng Nghymru, 2012'
http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/tybaco-ac-iechyd-yng-nghymru-2012

[2] http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/ysmygu-yng-nghymru-1

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. General Lifestyle Survey Overview: A report on the 2011 General Lifestyle Survey. 2013.
http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ghs/general-lifestyle-survey/2011/rpt-chapter-1.html

[4] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh
[5] https://llyw.cymru/cynllun-cymru-ar-reoli-tybaco-2017-i-2020
[6] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

Mae'r mwg sy'n cael ei allyrru o sigaréts ac yn cael ei anadlu allan gan ysmygwyr yn cynnwys mwy na 50 o gemegion a gydnabyddir fel carsinogenau, yn ogystal â llawer o gyfryngau llidus gwenwynig [7]. Y consensws yw nad oes lefel ddiogel o gysylltiad â mwg ail-law ac, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau di-fwg sydd ddim yn gaeedig drwy weithredu gwirfoddol, mae angen deddfwriaeth gynhwysfawr i wneud cynnydd sylweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn gweithio gyda deddfwriaeth arall i gyfrannu at y gostyngiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu. Nod Rheoliadau 2020 fydd sicrhau bod ysmygu'n cael ei ddadnormaleiddio ymhellach drwy gyfyngu ar ysmygu mewn mannau mwy cyhoeddus, yn enwedig lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd (fel tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus). Bydd hyn yn golygu bod plant yn gweld llai o oedolion yn ysmygu yn eu bywydau bob dydd gyda'r bwriad o'u gwneud yn llai tebygol o dyfu i fyny yn meddwl bod ysmygu yn ymddygiad normal neu'n ymddygiad i anelu ato ymhlith oedolion.

Mae gwahardd ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo plant o dan 18 oed yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP);

- Erthygl 3 - lles gorau'r plentyn
- Erthygl 24 - hawl plentyn i'r iechyd a'r amddiffyniad gorau posibl wrth ystyried peryglon a risgiau llygredd amgylcheddol.

Bwriad y darpariaethau yn Rheoliadau 2020 sy'n ymwneud â thir ysbytai yw hyrwyddo newid mewn ymddygiad a chefnogi ysmygwyr sy'n defnyddio gwasanaethau ysbyty i roi'r gorau i ysmygu. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn dileu'r eithriad presennol sy'n caniatáu dynodi ystafell lle y gall cleifion a phreswylwyr unedau iechyd meddwl ysmygu ac yn ei le mae esemptiad am gyfnod cyfyngedig a fydd yn dod i ben 18 mis ar ôl i Reoliadau 2020 ddod i rym. Mae nifer yr ysmygwyr ymhlith pobl â salwch meddwl yn sylweddol uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol. Bydd dileu'r eithriad hwn yn sicrhau bod y gyfraith yn cyd-fynd â defnyddwyr gwasanaethau ysbytai cyffredinol a bydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl. Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth ystafelloedd ysmygu dynodedig mewn cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion. Roedd Rheoliadau 2007 yn rhoi esemptiad i gartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion a oedd yn caniatáu i reolwr y safle ddynodi ystafell ar gyfer ysmygu i'w defnyddio gan bobl dros 18 oed. Cadwyd yr eithriad hwn yn Rheoliadau 2020 ond gyda'r amod ychwanegol mai dim ond preswylwyr y cartref gofal i oedolion neu'r hosbis i oedolion sy'n defnyddio'r ystafell ysmygu ddynodedig.

Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn dileu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely lle caniateir ysmygu mewn gwestai, hosteli, tafarnau a chlybiau aelodau a'i ddisodli gydag esemptiad cyfnod cyfyngedig a fydd yn dod i ben 12 mis ar ôl i reoliadau 2020 ddod i rym. Darperir darpariaeth debyg ar gyfer llety gwyliau neu lety dros dro hunangynhwysol (fel carafanau statig a ddefnyddir sy'n cael eu rhentu fel llety gwyliau neu at ddibenion dros dro a bythynnod a chalets, a fflatiau sy'n cael eu gosod am gyfnod byr fel llety gwyliau). Mae'r gwaharddiad ar ysmygu wedi ennill ei blwyf yng Nghymru i'r graddau nad yw'r eithriad presennol yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Byddai dileu'r dynodiad hwn yn ymestyn yr amddiffyniad yn y gweithle rhag niwed iechyd mwg ail-law i bob gweithiwr mewn safleoedd o'r fath ac yn cefnogi nod terfynol Llywodraeth Cymru o gael cymdeithas ddi-fwg.

Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020.

## Casgliad

1. Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

[7] http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/secondhandsmoke/fullreport.pdf

Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020") gan Fwrdd Strategol Rheoli Tybaco Llywodraeth Cymru ac roedd Rheoliadau 2020 yn destun ymgynghoriad 12 wythnos llawn yn 2018[8]. Aethom ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chael sylwadau ganddynt yn ystod y broses ymgynghori. Darparwyd drafftiau o'r asesiadau effaith ar gyfer y Gymraeg, Hawliau Plant neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol i randdeiliaid er mwyn rhoi sylwadau arnynt.

Mae Rheoliadau 2020 wedi'u diwygio yn dilyn adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd Rheoliadau 2020 yn cefnogi Cymraeg 2050 drwy ddarparu gwybodaeth ddwyieithog sy'n ymwneud â Rheoliadau 2020 gyda gofyniad i'r holl rybuddion ysgrifenedig rhagnodedig fod yn ddwyieithog. Bydd canllawiau i gefnogi gweithredu Rheoliadau 2020 yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

Mae'r ymgysylltu â'r rhai y mae Rheoliadau 2020 yn effeithio arnynt yn parhau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu bryderon ynghylch cydymffurfio â'r cyfreithiau newydd ac mae canllawiau'n cael eu llunio gyda mewnbwn rhanddeiliaid allweddol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau.

1. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

**Pobl –** Dylai'r effaith fod yn gymedrol ac yn gadarnhaol i bobl. Effaith fwriadedig Rheoliadau 2020 yw lleihau cysylltiad â mwg ail-law a dadnormaleiddio ysmygu ymhellach, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Mae'r mwg sy'n cael ei allyrru o sigaréts ac yn cael ei anadlu allan gan ysmygwyr yn cynnwys mwy na 50 o gemegion a gydnabyddir fel carsinogenau, yn ogystal â llawer o gyfryngau llidus gwenwynig[9]. Y consensws yw nad oes lefel ddiogel o gysylltiad â mwg ail-law ac, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau di-fwg sydd ddim yn gaeedig drwy weithredu gwirfoddol, mae angen deddfwriaeth gynhwysfawr i wneud cynnydd sylweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn gweithio gyda deddfwriaeth arall i gyfrannu at y gostyngiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu. Nod Rheoliadau 2020 fydd sicrhau bod ysmygu'n cael ei ddadnormaleiddio ymhellach drwy gyfyngu ar ysmygu mewn mannau mwy cyhoeddus, yn enwedig lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd (fel tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus). Bydd hyn yn golygu bod plant yn gweld llai o oedolion yn ysmygu yn eu bywydau bob dydd gyda'r bwriad o'u gwneud yn llai tebygol o dyfu i fyny yn meddwl bod ysmygu yn ymddygiad normal neu'n ymddygiad i anelu ato ymhlith oedolion. Byddai dileu ystafelloedd ymysgu dynodedig mewn rhai mangreoedd penodol yn ymestyn yr amddiffyniad yn y gweithle rhag niwed iechyd mwg ail-law i bob gweithiwr mewn mangreoedd o'r fath ac yn cefnogi nod terfynol Llywodraeth Cymru o gael cymdeithas ddi-fwg.

**Diwylliant –** Dim effaith arwyddocaol.

**Y Gymraeg** – Dim effaith arwyddocaol. Mae Rheoliadau 2020 yn cefnogi Cymraeg 2050 drwy ddarparu arwyddion a chanllawiau dim ysmygu dwyieithog.

**Economi** – Dim effaith arwyddocaol. Yn ogystal â'r manteision iechyd, mae manteision economaidd i gefnogi ysmygwyr i roi'r gorau iddi ac atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu. Mae adroddiad a gynhyrchwyd yn 2013 gan ASH Cymru ar gost economaidd ysmygu i Gymru yn amcangyfrif bod y gost i gyflogwyr tua £90 miliwn y flwyddyn[10]. Mwy o absenoldeb oherwydd salwch a seibiannau

[8] https://llyw.cymru/rheoliadau-mangreoedd-cherbydau-di-fwg-cymru-2018
[9] http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/secondhandsmoke/fullreport.pdf

[10] ASH Cymru a BHF Cymru (2013). The economic cost of smoking to Wales: a review of existing evidence.

ysmygu sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r costau hyn yn ychwanegol at y costau i'r GIG.

**Amgylchedd** - Mae'r mwg sy'n cael ei allyrru o sigaréts ac yn cael ei anadlu allan gan ysmygwyr yn cynnwys mwy na 50 o gemegion a gydnabyddir fel carsinogenau, yn ogystal â llawer o gyfryngau llidus gwenwynig. Mae tystiolaeth wyddonol wedi'i chasglu sy'n cysylltu cysylltiad â mwg ail-law â chanlyniadau iechyd andwyol, gan gynnwys canlyniadau anadlol mewn plant ac oedolion, clefyd cardiofasgwlaidd acíwt a chanser yr ysgyfaint. Er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth hon yn seiliedig ar amlygiad hirdymor, mae rhai astudiaethau wedi adrodd am effeithiau yn dilyn amlygiad tymor byr i fwg tybaco, megis y llygaid a'r anadlu ymhlith pobl nad ydynt yn ysmygu. Dengys astudiaethau o'r fath y gallai hyd yn oed cysylltiad byr a thymor byr â mwg ail-law greu effeithiau andwyol sylweddol ar y system anadlol ddynol.

Y consensws, felly, yw nad oes lefel ddiogel o gysylltiad â mwg ail-law ac, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau di-fwg sydd ddim yn gaeedig drwy weithredu gwirfoddol, ceir awgrymiadau mai deddfwriaeth gynhwysfawr yw'r unig ffordd o wneud cynnydd sylweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae *Ffyniant i Bawb*[11], ein Strategaeth Genedlaethol, yn datgan ein hymrwymiad i adeiladu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau. Mae aer glân yn hollbwysig i greu'r amodau cywir ar gyfer iechyd a llesiant gwell yng Nghymru. Mae lleihau cysylltiad â'r niwed i iechyd o fwg ail-law, a hefyd sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu, yn rhan o greu amgylchedd gwell yng Nghymru.

## 2. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

Ysmygu yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd o hyd, ar ôl cael ei nodi fel un o brif achosion y bwlch mewn cyfraddau marwolaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae nifer y bobl sy'n ysmygu yng Nghymru yn gostwng yn raddol. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ysmygu yn y pumed mwyaf difreintiedig yn parhau i fod yn fwy na dwbl y gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig. Er enghraifft, yn 2014-15, nododd 29.2% o oedolion yn y pumed mwyaf difreintiedig eu bod wedi ysmygu, o gymharu â 12.0% yn y pumed lleiaf difreintiedig. Mae blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd (DALYs) yn mesur effaith amrywiaeth o ffactorau risg ar iechyd unigolyn. Mae un DALY yn cyfateb i golli un flwyddyn o fywyd iach unigolyn. Ysmygu yw'r ffactor risg mwyaf ar gyfer DALYs yng Nghymru, gan gyfrannu at golli 121,000 o flynyddoedd o fywyd iach yn 2017.[12]

Dechreuodd dau o bob tri o ysmygwyr cyn eu bod yn 18 oed, a dechreuodd bron i 40% ysmygu'n rheolaidd cyn eu bod yn 16 oed[3]. Bydd annog ysmygwyr ifanc naill ai i roi'r gorau iddi neu eu hannog i beidio â dechrau ysmygu yn y lle cyntaf nid yn unig yn eu helpu i fyw bywydau iachach ond mae tystiolaeth yn dangos bod plant sy'n byw gyda rhieni neu frodyr a chwiorydd sy'n ysmygu deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr eu hunain. Felly gallai person ifanc sy'n cael ei atal rhag ysmygu neu sy'n cael ei annog i roi'r gorau i ysmygu gael effaith ar ei blant, gan gynyddu'r gobaith y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ddi-fwg.

Yn ogystal â'r manteision iechyd, mae manteision economaidd i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu neu annog ysmygwyr ifanc i roi'r gorau iddi. Mae adroddiad a gynhyrchwyd yn 2013 gan ASH Cymru ar gost economaidd ysmygu i Gymru yn amcangyfrif bod y gost i gyflogwyr tua £90 miliwn y flwyddyn. Mwy o absenoldeb oherwydd salwch a seibiannau ysmygu sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r costau hyn yn ychwanegol at y costau i'r GIG.

Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu opsiynau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

## 3. Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

---

[11] https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

[12] http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/ysmygu-yng-nghymru-1

Gan y bydd y darpariaethau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017[13] a Rheoliadau 2020 yn cael eu gweithredu ar yr un pryd, bydd adolygiad o'r ddeddfwriaeth ysmygu hon yn cael ei chynnal dair blynedd ar ôl ei gweithredu i ganfod y costau a'r manteision gwirioneddol a hefyd a yw'n cyflawni'r effeithiau a ddymunir.

Bydd effaith Rheoliadau 2020, yn ogystal â Deddf 2017, yn cael ei monitro fel rhan o waith cadw gwyliadwriaeth ar iechyd ehangach ar ymddygiadau ysmygu yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, bydd yn anodd priodoli'n llawn rai tueddiadau ar lefel poblogaeth (y gellid eu nodi drwy'r math hwn o ddata) i effeithiau'r ddeddfwriaeth. Er bod y darpariaethau'n ceisio gwneud cyfraniad cyffredinol tuag at leihau cyfraddau ysmygu a'r nifer sy'n dechrau ysmygu, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc drwy gyfyngu ymhellach ar amlygrwydd ysmygu, ni fyddai'n bosibl priodoli tuedd o'r fath i'r ddeddfwriaeth yn unig. Y rheswm am hyn yw y bydd meysydd eraill o ddeddfwriaeth megis cyflwyno cyfyngiadau oedran ar werthu cynhyrchion nicotin, deunydd pacio safonol ar gyfer cynhyrchion tybaco, a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016, sy'n trosi Cyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco'r UE hefyd yn cael effaith, ochr yn ochr â dylanwadau cymdeithasol eraill.

[13] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted/welsh